# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 14 Mehefin 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

1 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd
7 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

### Cynlluniau i Fwrdd Cyfarwyddwyr Awdurdod Datblygu Cymru gwrdd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd

**C4 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i wahodd Bwrdd Cyfarwyddwyr Awdurdod Datblygu Cymru i gwrdd â Phwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad? (OAQ5663)

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Ni fyddai hyn yn fater i mi ond i Val Feld fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

### Bwrdd Croeso Cymru

**C5 Carwyn Jones:** Pa farchnadoedd y mae Bwrdd Croeso Cymru'n bwriadu eu targedu yn ystod y 12 mis nesaf? (OAQ5631)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Oddi mewn i'r DU, sef ein marchnad unigol fwyaf, y prif farchnadoedd yw parau cefnog sydd un ai wedi ymddeol yn gynnar neu sydd bellach heb blant gartref, ynghyd â theuluoedd â phlant cyn-arddegol. Y prif farchnadoedd tramor yw UDA, Iwerddon, yr Almaen, Ffrainc a'r Iseldiroedd.

### Rôl Treftadaeth Ddiwydiannol mewn Adfywiad Economaidd

**C6 Lynne Neagle:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar rôl treftadaeth ddiwydiannol wrth annog adfywiad economaidd cymunedau difreintiedig yng Nghymru? (OAQ5650)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae treftadaeth ddiwydiannol yn y Cymoedd ac mewn mannau eraill yng Nghymru yn elfen bwysig o weithgaredd datblygu economaidd eang a fydd o gymorth wrth adfywio cymunedau difreintiedig. Gall buddsoddi sensitif mewn traftadaeth ddiwydiannol helpu i amlygu ardal a gwella'r economi lleol drwy weithgaredd twristiaeth a chyfleoedd gwaith cysylltiedig.

### Cymorth i BAE Systems

**C7 Helen Mary Jones:** Pa gymorth a roddwyd i BAE Systems i'w helpu i baratoi cais am gymorth grant gan y Cynulliad? (OAQ5653)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cafodd y swyddogion nifer o gyfarfodydd â chynrychiolwyr o'r cwmni i drafod y ceisiadau grant. Pwrpas cyfarfodydd o'r fath yw helpu cwmnïau i ddeall gofynion y cynllun cymorth dethol rhanbarthol a hyn yw'r arfer arferol gyda phob darparu-ymgeisydd.

### Arian Cyfatebol (Trafodaethau gyda Thrysorlys y DU)

**C8 David Lloyd:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael gyda Thrysorlys y DU, fel rhan o'r arolwg cynhwysfawr o wariant, ynghylch cyllid i brosiectau sydd wedi eu cyllido gan arian cyfatebol o Ewrop? (OAQ5645)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cefais drafodaethau defnyddiol am y mater hwn gyda Changhellor y Trysorlys a Phen Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt.

### Cyfarfodydd â BAE Systems

**C9 Gareth Jones:** Pa gyfarfodydd sydd wedi eu cynnal â BAE Systems er mwyn trafod cais y cwmni am gymorth grant? (OAQ5654)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfarfu'r swyddogion a minnau â'r cwmni gryn nifer o weithiau cyn cyflwyno'r ceisiadau am gymorth dethol rhanbarthol ac yn ystod y broses werthuso.

### Costau Cau (Trafodaethau â'r Gweinidog Perthnasol yn Llywodraeth Prydain)

**C10 John Griffiths:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael â'r gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Prydain ynghylch costau cau er mwyn sicrhau bod Cymru'n cyd-fynd ag arferion gorau'r UE? (OAQ5632)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid yw hyn yn fater a ddatganolwyd. Yr Adran Masnach a Diwydiant sydd yn arwain dros y DU. Mae deddfwriaeth y DU ar ddiswyddo torfol, a nodir yn Neddf Cysylltiadau Undebau Llafur a Llafur (Cyfuno) 1992, yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Diswyddiadau Torfol y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae dyddiau'r swydd am oes wedi gorffen. Mewn economi dynamig, mae rhai busnesau'n methu neu'n crebachu ac eraill yn dechrau neu'n ehangu. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae nifer y swyddi i weithwyr yng Nghymru wedi codi 39,000. Y sicrwydd gwaith gorau yw i weithwyr ddatblygu eu medrau drwy raglen wybodus, strwythurol o ddysgu gydol oes fel bod cynnydd a chwymp busnesau unigol, dros eu hoes gweithio, yn amharu llai arnynt.

### Cyfarfod â Chynrychiolwyr ADC ynghylch Datblygu Economaidd

**C11 Michael German:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i gwrdd â chynrychiolwyr Awdurdod Datblygu Cymru er mwyn trafod datblygu economaidd yng Nghymru? (OAQ5643)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Caf gyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr ADC, gan gynnwys ei gadeirydd a'i brif weithredwr. Yr oedd fy nghyfarfod diwethaf â chadeirydd ADC ar 26 Mai eleni, cyn ein taith fasnach i Awstralia. Byddaf yn parhau i gyfarfod â chynrychiolwyr ADC ac eraill yn rheolaidd er mwyn trafod datblygu economaidd yng Nghymru.

### Adfywio Economi Brynbuga a Llanelly Hill

**C12 David Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i adfywio economi ardal Brynbuga? (OAQ5661)

**C28 David Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd ar gyfer adfywio economaidd ardal Llanelly Hill yn Nhrefynwy? (OAQ5660)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Atebaf y cwestiynau hyn gyda'i gilydd. Yr ydych yn ymwybodol o'r ateb a roddais ar 22 Mawrth i OAQ4284 y bydd Trefynwy a chymunedau fel Brynbuga a Llanelly Hill yn elwa'n uniongyrchol o'r amrediad o raglenni domestig ac Ewropeaidd a ddatblygir ar hyn o bryd i adfywio economi Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys y gronfa adfywio lleol newydd, cyllid trosiannol o dan raglen Amcan 2, rhaglen weithredol Amcan 3, mentrau cymunedol newydd fel LEADER Plus a'r cynllun datblygu gwledig i Gymru. Mae'r olaf yn arbennig o berthnasol i gymunedau ledled Sir Fynwy. Mae'n darparu cymorth penodol ar gyfer addasu a datblygu cymunedau gwledig ym mhob rhan o ddwyrain Cymru er mwyn helpu i godi cyfraddau gweithgaredd economaidd a hybu

datblygu economaidd. Hefyd, bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos â'r holl awdurdodau lleol er mwyn hyrwyddo ac adfywio eu heconomïau lleol.

### Cyfarfodydd ag Awdurdod Datblygu Cymru

**C13 Christine Humphreys:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i gwrdd ag Awdurdod Datblygu Cymru'n amlach? (OAQ5635)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Caf gyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr ADC, gan gynnwys ei gadeirydd a'i brif weithredwr. Yr oedd fy nghyfarfod diwethaf â chadeirydd ADC ar 26 Mai eleni, cyn ein taith fasnach i Awstralia. Nid oes gennyf fwriad i gyfarfod â hwy'n amlaf yn y dyfodol.

### Prynu Hyder (Trafodaethau â Western Power Distribution Cyfyngedig)

**C14 Christine Humphreys:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael â chynrychiolwyr Western Power Distribution Cyfyngedig ynghylch prynu Hyder? (OAQ5636)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfarfûm â chynrychiolwyr WPD Cyf yn fuan ar ôl cyhoeddi ei gynnig am Hyder a thrafod bwriadau'r cwmni. Bu swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad â'r cwmni wedi hynny a threfnwyd cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, er mwyn galluogi'r aelodau i holi cynrychiolwyr y cwmni a rhai eraill cysylltiedig ynghylch y cynnig. Byddaf yn ceisio cynnal cysylltiadau o'r fath a byddaf yn cyflwyno sylwadau priodol ar ddyfodol grŵp Hyder, ei weithrediadau yng Nghymru, buddiannau ei weithwyr, ei gwsmeriaid, rhaglenni buddsoddi ac amgylchedd arfaethedig y cyfleustodau dŵr a thrydan a rheolaeth y grŵp yn y dyfodol.

### Cyllid Ychwanegol i Fudiadau (Rhaglen Amcan 3)

**C15 Jenny Randerson:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd unrhyw gynlluniau i ddarparu cyllid ychwanegol i fudiadau a effeithir gan y bwlch cyllidol rhwng diwedd y rhaglen Amcan 3 bresennol a dechrau'r un newydd? (OAQ5638)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn ymwybodol o'r anawsterau y gallai rhai mudiadau, yn enwedig y rhai yn y sector gwirfoddol, eu hwynebu wrth drafod y newid i'r rhaglenni Amcan 1 a 3 newydd. Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried ar frys a gwneir cyhoeddiad cyn gynted ag y bo modd.

### Prynu Hyder (Trafodaethau â Western Power Distribution)

**C16 Michael German:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael gyda chynrychiolwyr o Western Power Distribution Cyfyngedig ynghylch prynu Hyder? (OAQ5648) [R]

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfarfûm â chynrychiolwyr o WPD Cyf yn fuan ar ôl cyhoeddi ei gynnig am Hyder a thrafod bwriadau'r cwmni. Bu swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad â'r cwmni wedi hynny a threfnwyd cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, er mwyn galluogi'r aelodau i holi cynrychiolwyr y cwmni a rhai eraill cysylltiedig ynghylch y cynnig. Byddaf yn ceisio cynnal cysylltiadau o'r fath a byddaf yn cyflwyno sylwadau priodol ar ddyfodol grŵp Hyder, ei weithrediadau yng Nghymru, buddiannau ei weithwyr, ei gwsmeriaid, rhaglenni buddsoddi ac amgylchedd arfaethedig y cyfleustodau dŵr a thrydan a rheolaeth y grŵp yn y dyfodol.

### Goblygiadau Gwario Amcan 1 i'r Arolwg Cynhwysfawr o Wariant

**C17 Elin Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch tanlinellu oblygiadau gwario Amcan 1 i'r arolwg cynhwysfawr o wariant i Drysorlys y DU? (OAQ5646)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru a minnau'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod amrediad eang o faterion sydd yn effeithio ar Gymru. Gallaf sicrhau'r Cynulliad ei fod yn llwyr ymwybodol o oblygiadau ariannol Amcan 1 ac mae'r ddau ohonom yn parhau i gyflwyno sylwadau cryf i Ben Ysgrifennydd y Trysorlys.

### Prosiect Blwyddyn Fathemateg 2000

**C18 William Graham:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ynghylch ei ran ym mhrosiect blwyddyn fathemateg 2000 a'i oblygiadau i fusnesau yng Nghymru? (OAQ5641)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr oeddwn yn falch iawn o lansio Mathemateg 2000 ddechrau'r flwyddyn. Y mis diwethaf, gyda Peter Moody, cydlynydd cenedlaethol Blwyddyn Fathemateg 2000, lansiais 'Helping Your Child with Maths'—llyfryn sydd yn rhoi cyfarwyddyd ymarferol i rieni—yn Eisteddfod yr Urdd. Fe'i dosbarthir am ddim i ddisgyblion ysgol gynradd yng Nghymru. Yr oeddwn yn falch o gael gwybod bod busnesau eisoes yn rhoi cymorth ymarferol i Fathemateg 2000, drwy bartneriaethau addysg busnes. Gall nawdd gan fusnesau chwarae rhan bwysig wrth gefnogi mentrau a fydd yn helpu i godi safonau yn ein hysgolion. Bydd cynyddu ymwybyddiaeth o fathemateg, a hyder ynddi, yn helpu busnesau drwy ddarparu gweithlu mwy rhifog a chynhyrchiol.

### Buddsoddiad yn Nwyrain De Cymru a Gorllewin De Cymru

**C19 Peter Black:** Faint o arian cyhoeddus sydd wedi'i fuddsoddi yn Nwyrain De Cymru a Gorllewin De Cymru gan Awdurdod Datblygu Cymru yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf a faint o swyddi a grewyd yn y ddau ranbarth o ganlyniad i hynny? (OAQ5619)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr oedd gwariant ADC yn Nwyrain De Cymru a Gorllewin De Cymru a niferoedd y swyddi a grewyd neu a ddiogelwyd o ganlyniad i'r buddsoddi hwn dros y ddwy flynedd diwethaf fel a ganlyn:

| | **Dwyrain De Cymru** | | **Gorllewin De Cymru** | |
|---|---|---|---|---|
| | **1998-99** | **1999-2000** | **1998-99** | **1999-2000** |
| Arian cyhoeddus a fuddsoddwyd (£ miliwn) | 46.6 | 49.8 | 29.7 | 31.9 |
| Arian Prosiect LG | 26.5 | - | - | - |
| Swyddi a grewyd neu a ddiogelwyd | 7,815 | 7,599 | 1,626 | 3,138 |

Nodiadau
*1. Nid oes cydberthyniad uniongyrchol rhwng y ffigur am y swyddi a grewyd neu a ddiogelwyd a gwariant ADC gan y ceir y gwariant yn aml mewn blwyddyn wahanol i'r un pan gofnodwyd y swyddi.*
*2. Mae'r ffigurau'n cynnwys yr holl wariant uniongyrchol gan adrannau rhanbarthol ADC a'i Adran Tir. Nid ydynt yn cynnwys costau rhedeg, gwariant arall a geir er budd Cymru gyfan—er enghraifft, gweithgareddau rhyngwladol a marchnata—a gwariant o gyllideb datblygu busnes Cymru gyfan.*

### Twristiaeth yn Nwyrain De Cymru

**C20 William Graham:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad am hybu twristiaeth yn Nwyrain De Cymru? (OAQ5639)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cytunwyd ar strategaeth twristiaeth ar gyfer de-ddwyrain Cymru gan bartneriaeth sydd yn cynnwys awdurdodau lleol, y cwmni twristiaeth rhanbarthol a Bwrdd Croeso Cymru. Mae dulliau o roi'r strategaeth ar waith cael eu hystyried.

### Arian Cyfatebol i Amcan 1

**C21 Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar ei drafodaethau diweddaraf ynghylch arian cyfatebol i raglen Amcan 1? (OAQ5621)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae trafodaethau â'r Trysorlys yn mynd rhagddynt.

### Effaith ar Gyflogaeth o ganlyniad i Hyder gael ei Brynu

**C22 Mick Bates:** Pa asesiad y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'i wneud ar yr effaith ar gyflogaeth yng Nghymru o ganlyniad i Hyder gael ei brynu? (OAQ5651)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gwnaethpwyd dau gynnig i brynu Hyder. O ran eu heffaith ar gyflogaeth, mae St David Capital, neu Nomura, wedi rhoi ymrwymiad i'r Cynulliad na fydd toriadau sylweddol pellach ar swyddi, os bydd ei gynnig yn llwyddo, ar ben y rhai a gyhoeddwyd eisoes gan Hyder, ac y disgwylir iddynt gael eu gwneud drwy ddiswyddiadau gwirfoddol. Dywedodd Western Power Distribution Cyfyngedig, yr ail gwmni sydd yn cynnig am Hyder, y bydd yn sicrhau'r nifer lleiaf posibl o golledion swyddi a chred y bydd effeithlonrwydd ac arferion busnes da, ynghyd â gwelliannau mewn perfformiad gweithredol, yn rhoi mwy o ddiogelwch i swyddi.

### Cynyddu'r Defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

**C23 Ann Jones:** Beth sydd yn cael ei wneud i gynyddu'r defnydd o TG&Ch yn economi Cymru? (OAQ5624)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cynulliad yn llawn gydnabod bod technolegau cyfathrebu gwybodaeth yn allweddol wrth sicrhau ffyniant economaidd Cymru. Mae amrediad o fentrau sector cyhoeddus a phreifat ar waith i gynyddu ymwybyddiaeth o fantais y technolegau hyn ac mae cefnogaeth ar gael i helpu cwmnïau i fwrw ymlaen ag atebion. Gellir ceisio am y cymorth hwn drwy Gyswllt Busnes.

Mae'r ddogfen rhaglennu sengl ar gyfer cyllid Amcan 1 yn cefnogi mentrau sylweddol i hybu'r defnydd o dechnolegau cyfathrebu gwybodaeth ac argaeledd seilwaith telegyfathrebu cysylltiedig. Mae 'Gwellcymru.com', cynllun gweithredol y Cynulliad, yn pennu targed o 50 y cant o gwmnïau yng Nghymru â mynediad i'r rhyngrwyd, gwefan a chyfnewid data electronig erbyn Mawrth 2003. Mae hefyd yn gofyn am gynhyrchu strategaeth oes gwbodaeth erbyn Hydref eleni.

### Grantiau i Dalu am Arwyddion Ffyrdd i Atyniadau i Dwristiaid

**C24 Carwyn Jones:** Pa grantiau sydd ar gael i helpu atyniadau i dwristiaid dalu am arwyddion ffyrdd sydd yn arwain pobl i'w safleoedd? (OAQ5630)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynllun grantiau penodol sydd ar gael i gynorthwyo gweithredwyr twristaidd i dalu am arwyddion ffyrdd sydd yn arwain at eu safleoedd. Mae'n bolisi arferol i gostau arwyddion gael eu talu gan weithredwyr neu berchnogion yr atyniadau. Fodd bynnag, gall awdurdodau lleol neu gyrff twristaidd gyfrannu at y costau os ystyriant y byddai o fudd i ddatblygiad twristiaeth yn gyffredinol yn eu hardaloedd.

### Datblygiadau Diweddaraf yn Hanes Prynu Hyder

**C25 Nick Bourne:** A all y Prif Ysgrifennydd adrodd ar y datblygiadau diweddaraf yn hanes prynu Hyder? (OAQ5622)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ar ôl y cynnig am Hyder gan St David Capital, neu Nomura, cyhoeddwyd cynnig ariannol mwy gan Western Power Distribution Cyfyngedig ar 31 Mai. Ni chymeradwyodd bwrdd Hyder y cynnig i'w gyfranddalwyr oherwydd y barnwyd ei fod yn agored i fwy o ansicrwydd rheoleiddiol na'r cynnig cyntaf. Cyhoeddodd St David Capital, hefyd ar 31 Mai, ei fod yn ystyried a fyddai'n codi ei gynnig i bris uwchlaw cynnig WPD Cyf.

Mae'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr a Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan wedi ystyried y materion rheoleiddiol a godir gan gynnig diweddaraf WPD Cyf, a chyhoeddasant bapur ymgynghorol ar y cyd ar 6 Mehefin. Disgwylir y bydd y cynnig yn ddarostyngedig i Reoliad Cyfuno'r Comisiwn Ewropeaidd.

Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 8 Mehefin pan holasant gynrychiolwyr WPD Cyf am fanylion ei gynnig. Cytunasant y dylid gofyn imi gyflwyno sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant gan ofyn am ddychwelyd cynnig Western Power Distribution Cyfyngedig i'w ystyried gan awdurdodau'r DU. Bydd unrhyw sylwadau a gyflwynaf ar gael hefyd i Aelodau'r Cynulliad.

### Effaith Prynu Hyder ar Swyddi yng Nghymru

**C26 Kirsty Williams:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar effaith prynu Hyder ar swyddi yng Nghymru? (OAQ5637)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gwnaethpwyd dau gynnig i brynu Hyder. O ran eu heffaith ar swyddi, mae St David Capital, neu Nomura, wedi rhoi ymrwymiad i'r Cynulliad na fydd toriadau sylweddol pellach ar swyddi, os bydd ei gynnig yn llwyddo, ar ben y rhai a gyhoeddwyd eisoes gan Hyder, ac y disgwylir iddynt gael eu cyflawni drwy ddiswyddiadau gwirfoddol. Dywedodd Western Power Distribution Cyfyngedig, yr ail gwmni sydd yn cynnig am Hyder, y bydd yn sicrhau'r nifer lleiaf posibl o golledion swyddi a chred y bydd effeithlonrwydd ac arfer busnes da, ynghyd â gwelliannau mewn perfformiad gweithredol, yn rhoi mwy o ddiogelwch i swyddi.

### Lleihau Diweithdra yn Ynys Môn

**C27 Peter Rogers:** Pa fesurau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i leihau diweithdra yn Ynys Môn? (OAQ5642)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r gyfradd diweithdra gyfredol yn ardal teithio i'r gwaith Llangefni ac Amlwch, 7.4 y cant, dros 50 y cant yn waeth na'r gyfradd gyfredol ar gyfer Cymru gyfan, sef 4.8 y cant. Un o'r mannau gwaethaf yng Nghymru ydyw o ran diweithdra. Un o'r amcanion allweddol yn 'Gwellcymru.com' yw creu cyfleoedd gwaith ledled Cymru, ond yn enwedig yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, i bawb sydd yn dymuno gweithio.

Cyflenwir yr amcan hwn drwy amrediad eang o raglenni a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff a noddir ganddo, sydd yn ceisio gwella cynhyrchiant a gallu cystadleuol busnesau yng Nghymru, gan ddarparu cymorth ar gyfer dechrau busnesau newydd a gwella medrau'r gweithlu. Fodd bynnag, creir y rhan fwyaf o swyddi gan fusnesau preifat heb unrhyw ymyrraeth gan y sector cyhoeddus o gwbl.

Gobeithio y caiff y map rhanbarthau cymorth arfaethedig newydd ei gymeradwyo cyn hir, fel y gall cwmnïau gael ceisio am ffurfiau holl bwysig o gymorth diwydiannol fel cymorth dethol rhanbarthol, a fydd yn helpu cwmnïau i ffynnu ac ehangu. Mae gan ogledd Cymru hanes rhagorol eisoes o weithwyr ymroddedig yn gweithio i gyflogwyr o ansawdd da, a llawer ohonynt yn fewnfuddsoddwyr. Nid oes gennyf amheuaeth na fydd hyn yn parhau ac y bydd y cwmnïau'n dal i recriwtio'r bobl fedrus y mae arnynt eu hangen yn lleol.

### Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 1

**C29 Phil Williams:** A wnaiff ddatganiad y Prif Ysgrifennydd ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran ystyriaeth y Comisiwn Ewropeaidd o ddogfen rhaglennu sengl Amcan 1? (OAQ5657)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Comisiwn Ewropeaidd bellach wedi derbyn fersiwn terfynol y ddogfen rhaglennu sengl ac mae'n mynd â hi drwy ymgynghori rhyngwasanaethol â'r holl Gyfarwyddiaethau Cyffredinol, a chyda'r pwyllgorau ymgynghorol. Bydd y broses hon yn parhau am ychydig wythnosau cyn y bydd modd i'r rhaglen gael sêl bendith swyddogol y Comisiynydd Barnier. Rhagwelwn y bydd hysbysiad am gytundeb cyfreithiol ffurfiol ar y rhaglen yn gynnar yng Ngorffennaf. Yr adeg honno, bydd modd dechrau rhoi'r rhaglen ar waith.

### Busnesau Llwyddiannus sydd â'u Seiliau yng Nghymru

**C30 Kirsty Williams:** Beth mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu'i wneud i helpu i sicrhau bod busnesau llwyddiannus sydd â'u seiliau yng Nghymru yn cadw eu seiliau yng Nghymru? (OAQ5649)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyflwynir strategaeth economaidd y Cynulliad yn 'Gwellcymru.com', y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ddrafft a'i rhagflaenydd, 'Ffordd i Ffyniant', y mae'r ddau yn ceisio creu hinsawdd lle y gall busnesau llwyddiannus ffynnu yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

### Y Broses Gyllidebol

**C5 John Griffiths:** Beth fydd y gwahaniaethau mwyaf rhwng y broses gyllidebol sydd ar y gweill a'r un flaenorol? (OAQ5698) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynnal Cynhwysiant Cymdeithasol (Gwasanaethau'r Llywodraeth)

**C6 Brian Hancock:** A wnaiff Edwina Hart ystyried cyhoeddi unrhyw ganllawiau i sicrhau bod egwyddor cynhwysiant cymdeithasol yn cael ei chynnal drwy'r holl wasanaethau a ddarperir gan y Llywodraeth yng Nghymru?(OAQ5710)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yw un o'r tair thema fawr a nodir yn 'Gwellcymru.com'. Yr ydym yn sefydlu rhwydwaith o gefnogwyr lefel uchel y bydd ei aelodau'n dod o gyrff allweddol. Bydd y grŵp hwn yn helpu i sicrhau bod cynhwysiant cymdeithasol yn flaenoriaeth i bob corff. Cynhyrchir yr adroddiad blynyddol cyntaf ar fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yn ddiweddarach eleni a bydd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y polisïau a'r mentrau sydd yn ceisio lliniaru anfantais gymdeithasol a monitro cynnydd. Er mwyn pwysleisio'r neges, cynhelir cynhadledd genedlaethol i lansio'r adroddiad.

### Prosiect Adeilad Newydd y Cynulliad

**C7 Glyn Davies:** Pa welliannau y cyfeiriwyd atynt yng nghwestiwn y Cynulliad a drosglwyddwyd i ateb ysgrifenedig, OAQ4949, o ran yr arolwg o broject arfaethedig adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ5721)

**Edwina Hart:** Yr oedd y gwelliannau y cyfeiriwyd atynt wedi eu crybwyll yn yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Grŵp Turner a Townsend ac maent yn ymwneud â materion amgylcheddol a diogelwch.

### Cynhwysiant Cymdeithasol (Gwasanaethau yng Nghymru)

**C8 Brian Hancock:** Sut wnaiff Edwina Hart sicrhau yr amlygir cynhwysiant cymdeithasol yn yr holl

wasanaethau a ddarperir yng Nghymru, ac nid yn y Cynulliad yn unig? (OAQ5704)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'ch cwestiwn cynharach, OAQ5710.

### Gwerthuso'r gost o ohirio Adeilad Newydd y Cynulliad

**C9 Glyn Davies:** Pa gamau y mae Edwina Hart yn bwriadu eu cymryd er mwyn gwerthuso'r gost o ohirio project arfaethedig adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ5722)

**Edwina Hart:** Bydd unrhyw gostau sydd yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn yn dibynnu ar ganlyniad penderfyniad y Cynulliad ar 21 Mehefin. Ni ddymunaf ragfarnu'r canlyniad hwnnw.

### Arian ar gyfer Tai yng Nghymru (Arolwg Cynhwysfawr o Wariant)

**C10 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae Edwina Hart wedi eu cael â Changhellor y Trysorlys gyda'r bwriad o geisio cael mwy o arian ar gyfer tai yng Nghymru o ganlyniad i'r arolwg cynhwysfawr o wariant? (OAQ5724)

**Edwina Hart:** Ni chefais drafodaethau â Changhellor y Trysorlys ynghylch darparu cyllid ychwanegol ar gyfer tai yng Nghymru.

### Casglu Ystadegau

**C11 Jocelyn Davies:** Pa gynlluniau sydd ganddi i wella'r broses o gasglu ystadegau er mwyn gwella'r gwaith o greu polisi yn ei hadran? (OAQ5696)

**Edwina Hart:** Cyflwynwyd y cynlluniau cyfredol ar gyfer gwella'r modd y cesglir ystadegau yn y drafft ymgynghorol o gynllun ystadegau blynyddol cyntaf y Cynulliad a gylchredwyd yn Ebrill. Mae ymatebion i sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori yn cael eu hystyried a chyhoeddir cynllun terfynol cyn toriad yr haf.

### Arolwg o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**C12 Carwyn Jones:** Pa fath o arolwg fydd yr arolwg a gyhoeddwyd yn ddiweddar o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (OAQ5713)

**Edwina Hart:** Llunnir cylch gwaith penodol a chynllun gwaith manwl ar gyfer pob arolwg. Bydd y rhain, ynghyd â'r canllawiau a osodais ar safleoedd mewnrwyd a rhyngrwyd y Cynulliad y mis diwethaf, yn darparu'r fframwaith ar gyfer y gwaith. Ymgynghorir â chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a Phwyllgorau Pwnc priodol y Cynulliad ar gylch gwaith drafft ac adroddiadau rhagarweiniol ar yr arolwg pum-mlynyddol. Bydd yr adroddiadau a'r cynlluniau gweithredu terfynol yn ddogfennau cyhoeddus, a fydd ar gael ar wefan y Cynulliad.

### Adeilad Newydd y Cynulliad (Cost a Ragamcennir)

**C13 Jonathan Morgan:** Beth yw'r gost ariannol ddiweddaraf a ragamcennir ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ5717)

**C17 Jonathan Morgan:** A yw Edwina Hart yn fodlon gwneud datganiad ar yr amcangyfrif diweddaraf o gost adeilad arfaethedig y Cynulliad? (OAQ5718)

**Edwina Hart:** Atebaf y cwestiynau hyn gyda'i gilydd. Mae ffeil sydd yn darparu'r wybodaeth hon, yn ogystal â phrif ganfyddiadau'r adolygiad, ar fin ei chyhoeddi, ynghyd â chynnig ar gyfer y ddadl ar 21 Mehefin 2000.

**Arolwg Cynhwysfawr o Wariant**

**C14 Carwyn Jones:** Pryd y mae Edwina Hart yn disgwyl cael gwybod canlyniad yr arolwg cynhwysfawr o wariant? (OAQ5712)

**Edwina Hart:** Disgwylir y bydd y Trysorlys yn cyhoeddi canlyniad yr arolwg gwariant yng Ngorffennaf.

**Cyfleoedd Cyfartal i bobl sydd â HIV neu AIDS)**

**C15 Jenny Randerson:** Beth yw cynlluniau Edwina Hart ar gyfer sicrhau bod pobl sydd â HIV neu AIDS yn derbyn cyfleoedd cyfartal yng Nghymru? (OAQ5726)

**Edwina Hart:** Mae cyfleoedd cyfartal yn ymwneud yn bennaf â darparu mynediad cyfartal a sicrhau triniaeth gyfartal mewn gwaith. Mae’r rhai sydd â firws diffyg imiwnedd dynol symptomatig—heintiad diffyg imiwnedd dynol—neu syndrom diffyg imiwnedd caffaeledig wedi eu diffinio’n ‘bobl anabl’ i ddibenion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. O dan y ddeddfwriaeth hon, fe’u diogelir ar hyn o bryd rhag gwahaniaethu gan gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau. Cyfarfûm yn ddiweddar â chynrychiolydd o’r Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol (Cymru).

**Prosiect Menter Cyllid Preifat (Canol De Cymru)**

**C16 Owen John Thomas:** A fydd Edwina Hart yn cynnal gwerthusiad o’r prosiectau Menter Cyllid Preifat sydd ar waith ac a gwblhawyd eisoes yn ardal Canol De Cymru? (OAQ5715)

**Edwina Hart:** Cychwynnais ymgynghoriad partneriaeth gyhoeddus-preifat a menter cyllid preifat eang gyda phartneriaid sydd yn ymwneud â phrosiectau menter cyllid preifat i geisio barn ar gyfer datblygu partneriaethau cyhoeddus-preifat ledled Cymru ac i sicrhau bod prosiectau’n dal i greu gwerth am arian. Nid oes gennyf fwriad ar hyn o bryd i werthuso contractau a arwyddwyd, sydd yn gyfrifoldeb o hyd i’r awdurdod caffael unigol. Fodd bynnag, ystyriaf yr awgrym.

**Cronfa’r Plant**

**C18 Lynne Neagle:** Pa drafodaethau y mae Edwina Hart wedi’u cael ag Adrannau Llywodraeth y DU ynglŷn â Chronfa’r Plant? (OAQ5693)

**Edwina Hart:** Nid yw cynigion Canghellor y Trysorlys ar gyfer cronfa’r plant wedi eu cwblhau eto.

**Cyfleoedd Cyfartal mewn Ysgolion**

**C19 Jocelyn Davies:** A yw Edwina Hart yn bwriadu cynyddu swm y data a gesglir ynglŷn â chyfleoedd cyfartal mewn ysgolion? (OAQ5706)

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd yr wyf yn ystyried nifer o gasgliadau data ychwanegol er mwyn gwella’r wybodaeth sydd ar gael i fonitro cyfle cyfartal mewn ysgolion. Nid oes gwybodaeth ddibynadwy ar lefel Cymru gyfan sydd yn ymwneud â disgyblion lleiafrifoedd ethnig. Y bwriad yw y bydd cyfrifiad ysgolion 2001 yn cynnwys cwestiwn sydd yn ymwneud â chyfansoddiad ethnig y poblogaeth yr ysgol gyfan. Mae ymgynghori’n mynd ymlaen ar hyn o bryd i geisio barn awdurdodau addysg lleol ar y categorïau arfaethedig er dynodi tarddiad ethnig yr holl ddisgyblion o oedran ysgol, wedi eu crynhoi ar lefel AALl.

Fel rhan o’r ymgynghori hwn, ceisiwyd gwybodaeth hefyd er mwyn canfod lefel bresennol y data a ddelir gan awdurdodau addysg lleol ar darddiad ethnig disgyblion, a chyrhaeddiad a phresenoldeb ymysg disgyblion lleiafrifoedd ethnig mewn ysgolion. Bydd y ffurflenni a dderbynnir yn adeiladu ar ddata tarddiad ethnig a gasglwyd yn gynharach eleni fel rhan o’r ymgynghori ar wahân ar ehangu cefnogaeth y Cynulliad i’r disgyblion lleiafrifoedd ethnig hynny nad yw’r Gymraeg neu’r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Maes o law bydd angen trafod ag awdurdodau addysg lleol y modd i ymateb i anghenion addysgol

ceiswyr nodded o oedran ysgol a wasgerir i Gymru, gan gynnwys y gofynion data. Mae anghenion data ychwanegol ar blant ag anghenion addysgol arbennig, er mwyn goleuo gwaith y rhaglen weithredu anghenion addysgol arbennig, yn cael eu hystyried fel rhan o'r arolwg cyfredol o'r cyfrifiad ysgolion. O ran athrawon a llywodraethwyr, rhoddir ystyriaeth i gasglu gwybodaeth ar darddiad ethnig ac, ar gyfer yr olaf, ar anabledd.

### Pwyllgor Cyfle Cyfartal (Datblygiad Polisi)

**C20 David Lloyd:** Pa ran y mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ei chwarae o ran cynghori ar ddatblygiad polisi ar draws yr holl bwyllgorau? (OAQ5709)

**Edwina Hart:** Nodir cylch gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn Rheol Sefydlog rhif 14. Bydd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad blynyddol cyntaf ar drefniadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal ar 12 Gorffennaf.

### Cyfleoedd Cyfartal (Gwasanaethau Cymru)

**C21 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y bydd Edwina Hart yn sicrhau yr amlygir cyfleoedd cyfartal yn yr holl wasanaethau a ddarperir yng Nghymru, yn hytrach nag yn y Cynulliad yn unig? (OAQ5705)

**Edwina Hart:** Byddaf yn disgwyl i'r cyrff hynny y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt ddilyn arweiniad y Cynulliad a rhoi lle yn y brif ffrwd yn eu holl bolisïau ac ymarferiadau i egwyddor cyfleoedd cyfartal. Ysgrifennais at brif weithredwyr y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a'r cyrff iechyd yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal er mwyn ceisio eu cefnogaeth drwy gynnwys cyfleoedd cyfartal yn eu polisïau a'u harferion ac i wahodd rhai ohonynt i gyfarfod â'r Pwyllgor i drafod eu hymagwedd at gyfleoedd cyfartal. Rhoddaf wybod i'r Cynulliad am bob cynnydd.

### Ariannu Canolfannau Cynghori

**C22 Karen Sinclair:** A oes gan Edwina Hart unrhyw gynlluniau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ariannu Canolfannau Cynghori yn uniongyrchol? (OAQ5694)

**Edwina Hart:** Nac oes. Daw rhan fwyaf yr arian ar gyfer Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori o adrannau Llywodraeth y DU. Ffynonellau eraill yw'r sector preifat, ymddiriedolaethau elusennol, arian Ewropeaidd a chynllun grantiau bwrdeistrefi Llundain. Ariannir canolfannau cynghori unigol yn bennaf gan awdurdodau lleol. Maent hefyd yn derbyn cyfraniadau gan y Bwrdd Cymorth Cyfreithiol, Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol, ymddiriedolaethau elusennol, y sector preifat a mudiadau eraill.

### Gweithredu BS7799 yn y Cynulliad

**C23 Peter Rogers:** A wnaiff Edwina Hart gynnig amserlen bendant ar gyfer gweithredu BS7799 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ5697)

**Edwina Hart:** Bydd y Cynulliad Cenedlaethol, yn yr un modd ag adrannau eraill y Llywodraeth, yn darparu cynlluniau terfynol ar gyfer achredu BS7799 erbyn diwedd Rhagfyr eleni. Bydd y cynlluniau hyn yn darparu amserlen ar gyfer achredu ar draws y Cynulliad Cenedlaethol.

### Arolwg Cynhwysfawr o Wariant (Arian Ychwanegol ar gyfer Tai)

**C24 Peter Black:** Faint o arian ychwanegol ar gyfer tai y mae Edwina Hart yn rhagweld a fydd ar gael o ganlyniad i'r arolwg cynhwysfawr o wariant? (OAQ5725)

**Edwina Hart:** Mae tai'n fater a ddatganolwyd a lle'r Cynulliad fydd penderfynu pa faint y mae'n dymuno ei ddyrannu i raglenni tai yn ystod cylch y gyllideb eleni.

### Cynhwysiant Cymdeithasol (Cynlluniau Strategol y Cynulliad)

**C25 Janet Ryder:** Sut y bydd Edwina Hart yn sicrhau y rhoddir egwyddor cynhwysiant cymdeithasol ym mhrif ffrwd cynlluniau strategol y Cynulliad? (OAQ5708)

**Edwina Hart:** Mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yw un o'r tair thema fawr a nodir yn 'Gwellcymru.com'. Mae hyn yn nodi cyfeiriad eglur i'w ddilyn gan bob maes polisi. Fodd bynnag, yr wyf yn monitro cynnydd yn barhaus. Sefydlwyd gweithgor ar anfantais gymdeithasol, a minnau'n gadeirydd arno, er mwyn darparu fframwaith strategol a chydlynol ar gyfer adrannau polisi. Mae Jane Hutt, Peter Law a minnau'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar y rhaglen waith a'r camau a gymerir i sicrhau bod rhaglenni sydd yn dylanwadu ar y rhai sydd o dan anfantais gymdeithasol yn effeithiol ac yn 'gydgysylltiedig'. Yn ogystal â hynny, mae rhwydwaith cynhwysiant cymdeithasol sydd yn cynnwys swyddogion o'r adrannau polisi priodol yn cyfarfod yn fisol i dynnu at ei gilydd linynnau polisi cynhwysiant ar draws busnes y Cynulliad ac i hybu cyflawniad y cynllun gweithredu.

### Arolwg Cynhwysfawr o Wariant (Anghenion Cymru)

**C26 Gareth Jones:** Pa benderfyniadau y mae Edwina Hart wedi'u mynegi i Drysorlys y DU, ar ôl ymgynghori â'i chydweithwyr yng Nghymru, ynghylch yr hyn y mae ar Gymru ei angen o'r arolwg cynhwysfawr o wariant? (OAQ5702)

**Edwina Hart:** Mae'r arian sydd ar gael i Gymru yn cael ei osod yn bennaf drwy gymhwyso'r rheolau ariannu. Fodd bynnag, mae ein trafodaethau â Phen Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch cronfeydd strwythurol a nifer o faterion eraill yn mynd rhagddynt.

### NHS yng Nghymru (Arian Ychwanegol)

**C27 Christine Humphreys:** Pa drafodaethau y mae Edwina Hart wedi'u cael â Changhellor y Trysorlys ynghylch yr angen am arian ychwanegol ar gyfer yr NHS yng Nghymru? (OAQ5727)

**Edwina Hart:** Ni chefais drafodaethau â Changhellor y Trysorlys ynghylch arian i'r NHS yng Nghymru. Mater i'r Cynulliad fydd penderfynu'r swm y mae'n dymuno ei ddyrannu i'r NHS o'r adnoddau ychwanegol y bydd yn eu derbyn wedi canlyniad arolwg gwariant y Trysorlys.

### Fformwla Barnett

**C28 Elin Jones:** A yw Edwina Hart wedi cynnal trafodaethau â'r swyddogion sy'n cyfateb iddi yn yr Alban neu yng Nghynulliad Llundain Fawr ynghylch Fformwla Barnett? (OAQ5703)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn trafod yn barhaus â'r un sydd yn cyfateb i mi yn yr Alban ynghylch amrediad o faterion o gyd-ddiddordeb. Nid oes gennyf fwriad i gynnal trafodaethau â'r un sydd yn cyfateb i mi yng Nghynulliad Llundain Fawr. Mae'r trefniadau ar gyfer ariannu Cynulliad Llundain Fawr yn gwbl wahanol i rai'r gwledydd datganoledig.

### Cost Adeiladu Siambr Lai ym Mae Caerdydd

**C29 Nick Bourne:** A all Edwina Hart roi adroddiad ar amcangyfrif o gost adeiladu siambr lai ar gyfer y Cynulliad ym Mae Caerdydd? (OAQ5719)

**Edwina Hart:** Mae ffeil sydd yn darparu'r wybodaeth hon, yn ogystal â phrif ganfyddiadau'r adolygiad, ar fin ei chyhoeddi, ynghyd â chynnig ar gyfer y ddadl ar 21 Mehefin 2000.

### Fformwla Barnett (Trafodaethau gyda Chynrychiolwyr Rhanbarthau Lloegr)

**C30 Geraint Davies:** A yw Edwina Hart wedi neu a yw’n bwriadu cynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr rhanbarthau Lloegr ynghylch Fformwla Barnett? (OAQ5701)

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf fwriad i gynnal trafodaethau â chynrychiolwyr rhanbarthau Lloegr. Mae’r trefniadau ariannu ar gyfer y rhanbarthau hyn yn gwbl wahanol i rai’r gwledydd datganoledig.